

helplu

helpforce

CYMDEITHION GWIRFODDOL MEWN GOFAL DIWEDD OES: STORI BWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA

'Fe darodd Covid wrth i ni ddechrau ar y prosiect, felly gwnaethon ni benderfynu'n gynnar i fynd yn 'rhithiol'. Gwnaethon ni gynnwys rhai gwirfoddolwyr 'mewnol' oedd gennym ni eisoes a charfan o Hahav hefyd (Hosbis yn y Cartref, Aberystwyth). Roedd llawer ohonynt yn eu 70au ac 80au ac roedd yn her enfawr i ddiweddarau pawb ar dechnoleg ddigidol a rhoi'r hyfforddiant cynefino corfforaethol iddynt.

Roedd y rheini dros 70 wedi'u categoreiddio'n swyddogol fel rhai 'agored i Covid'; roedd cael caniatâd i'r grŵp oedran hwn wirfoddoli - hyd yn oed wirfoddoli o gartref - yn her ychwanegol. Gwnaethom ni gyflwyno papur i bledio'r achos ond achosodd hyn oedi o 7-8 wythnos a rhwystrodd hyn ein cynnydd rywfaint. Fodd bynnag, fe roddodd amser i ni gael gwirfoddolwyr drwy eu hyfforddiant ac yn barod. Gadawodd rhai gwirfoddolwyr yn ystod y cyfnod hwn gan nad oedd y gwaith yn bopeth yr oeddent yn ei ddisgwyl. Cafodd pob un ohonynt ipad, wedi'i baratoi fel eu bod yn gallu cysylltu â chleifion gydag un clic, ond hyd yn oed wedyn, roedd rhai'n cael anhawster gwirfoddoli gartref. Gadawodd tri gwirfoddolwr i gyd a pharhaodd naw i fod yn weithredol.

Mae angen aruthrol am wasanaeth 'law yn llaw' fel ein un ni yn sgil demograffeg sy'n heneiddio, natur wledig yr ardal ac ati. Nid oedd rhai cleifion yn ddigon da neu eisiau cysylltiad wyneb yn wyneb yn hytrach na chyfathrebu ar-lein – roedd y dybiaeth na fyddai sgwrs rithiol yn ddigonol yn broblem.

Cynhaliwyd un cyfarfod hyfryd rhwng gwirfoddolwr a chlaf lle roedd y ddwy ohonyn nhw'n dwli ar asynnod. Daethant yn ffrindiau ar unwaith, a dywedodd y claf ar ôl hyn ei fod 'wedi gwneud ei diwrnod'.

Ym mis Awst, cawsom y golau gwyrdd o'r diwedd gan y grŵp Efydd i ailgychwyn gwasanaeth wyneb yn wyneb ac mae'r gwasanaeth yn ennill tir, rydyn ni'n paratoi'r gwaith papur perthnasol ac yn cynnal asesiadau risg – nid ydyn ni wedi dod â'r gwirfoddolwyr yn ôl i wasanaeth wyneb yn wyneb eto.

Mae'r profiad o'r prosiect wedi cyflwyno cymaint o ddysgu ehangach. Mae wedi datblygu ein cydberthynas waith gydag Hahav a mudiadau eraill, ac wedi cryfhau ein cydberthnasau cyfredol hefyd'.

Nia Gibbon, Swyddog Gwirfoddoli dros Iechyd

Mis Hydref 2021